

# Cyngor Partneriaeth Cymru

2 Hydref 2019

## Cofnodion drafft

### Mynychwyr

<b>Gweinidogion Llywodraeth Cymru</b>	
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol	Julie James AC
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol	Hannah Blythyn AC
Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit	Jeremy Miles AC
<b>Awdurdodau lleol</b>	
Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd	Y Cyng. Debbie Wilcox
Llywydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Y Cyng. Andrew Morgan
Arweinydd Cyngor Caerdydd	Y Cyng. Huw Thomas
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion	Y Cyng. Ellen ap Gwynn
Arweinydd Cyngor Conwy	Y Cyng. Sam Rowlands
Cynrychiolydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd	Mr Alun Michael
Cynrychiolydd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol	Maria Battle
Cynrychiolydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol	Mr Owain Wyn
Cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned	Y Cyng. Michael Cuddy
<b>Partneriaid Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus</b>	
Swyddfa Archwilio Cymru (Sylwedydd)	Huw Rees
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Sylwedydd)	Peter Davies, Cadeirydd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Chris Llewellyn, Prif Weithredwr
TUC Cymru (Sylwedydd)	Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol
Un Llais Cymru (Sylwedydd)	Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr
<b>Swyddogion Llywodraeth Cymru</b>	
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol	

### Ymddiheuriadau

Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe	Y Cyng. Robert Stewart
Arweinydd Sir Ddinbych	Y Cyng. Hugh Evans OBE
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Y Cyng. Huw David
Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin	Y Cyng. Mair Stephens
Awdurdodau Tân ac Achub	Y Cyng. Tudor Davies

## **Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau a diolch iddynt oll am fynychu.

## **Eitem 1: Diweddariad ar Brexit a pharodrwydd llywodraeth leol**

2. Cyflwynodd y Gweinidog Jeremy Miles AC, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit (CCGB), i roi diweddariad ar Brexit ac arwain yr eitem ar barodrwydd llywodraeth leol.
3. Crynhodd y CCGB y digwyddiadau diweddaraf yn gysylltiedig â Brexit a'r sefyllfa ddiweddaraf yn San Steffan.
4. Hefyd, rhoddodd y CCGB friff ar elfennau o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru gyda phartneriaid, llawer ohonynt yn bresennol yn y cyfarfod, i baratoi ar gyfer senario Brexit 'heb gytundeb'. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i groesawu, a gellid cael rhywfaint o gysur o'i ganfyddiadau cadarnhaol yn gysylltiedig â'r gwaith hwn ar y cyd.
5. Un sylw a wnaed gan y CCGB, a adleisiwyd gan aelodau eraill, oedd lefel sylweddol y gwaith, amser ac ymdrech a oedd yn mynd ar baratoadau Brexit, y gellid eu defnyddio fel arall ar rywbeth mwy defnyddiol.
6. Dilynodd trafodaeth ar effaith Brexit o ran natur anrhagweladwy'r sefyllfa a'r effaith ar adnoddau cyhoeddus, fel plismona.
7. Gwahoddodd y Gweinidog y Cyng. Debbie Wilcox i roi diweddariad ar lefelau parodrwydd llywodraeth leol, ar ran CLILC a llywodraeth leol.
8. Adroddodd y Cyng. Wilcox fod hyder bod awdurdodau lleol wedi cymryd camau call a chymesur i baratoi ar gyfer Brexit. Roedd asesiadau risg wedi'u cynnal o'r prif feysydd, fel yr effeithiau posibl ar gadwyni cyflenwi awdurdodau ac effeithiau yn sgil hynny ar ofal cymdeithasol, bwyd, tanwydd a chyflenwadau meddygol. Hefyd, trafodwyd effaith cynllun statws preswlydd sefydlog yr UE.
9. Roedd y sefyllfa bresennol yn golygu bod mwy o angen erbyn hyn am swyddogion Safonau Masnach, a oedd wedi'u torri'n ôl cymaint â phosibl, a bod angen tybiedig am 80 swyddog ychwanegol i ateb y galw disgwylidig pe byddai Brexit 'heb gytundeb'.
10. Hefyd, disgwyliwyd effaith fawr wrth i nifer uchel iawn o bobl ddychwelyd i Gymru o wledydd yr Undeb Ewropeaidd, llawer ohonynt yn hŷn ac, felly, yn debygol o fod angen rhyw fath o wasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd Grant Thornton wedi'u comisiynu i ymchwilio i'r mater hwn a disgwyliwyd adroddiad ddiwedd mis Hydref.
11. Croesawyd yr £1.25 miliwn o gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer banciau bwyd ac fe wnaeth CLILC ar ran llywodraeth leol dderbyn yn ffurfiol ei rôl yn y broses o alluogi mynediad at y cyllid hwnnw.

12. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn fodlon cynnal trafodaethau, drwy'r Panel Cyngori, ynghylch yr 80 o Swyddogion Safonau Masnach ychwanegol y byddai eu hangen.
13. Disgrifiodd y Gweinidog sut mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU i sicrhau na fydd Cymru ar ei cholled oherwydd Brexit. Cododd y Cyng. Ellen Ap Gwynn fater yr effaith niweidiol ar wydnwch y sector ffermio, gan gynnwys o bosibl ar iechyd meddwl ffermwyr. Codwyd pryderon hefyd y gallai Brexit 'heb gytundeb' arwain at gwmp economi'r DU a Chymru yn fwy cyffredinol.
14. Roedd lefelau is o ddiddordeb ymhlith y boblogaeth mewn materion yn ymwneud â Brexit o bryder, er derbyniwyd mai'r estyniadau mynych i ddyddiad gadael yr UE a'r cynnwrf gwleidyddol parhaus oedd achosion pennaf hyn. Cytunwyd bod gwasanaethau cyngori a chodi ymwybyddiaeth yn bwysig iawn. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Swyddfa Gartref i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd.
15. O ran yr ysgogiad cyllidol y soniodd y Cyng. Huw Thomas amdano, dywedodd y CCGB fod y Gweinidog Cyllid wedi cyhoeddi £85 miliwn yn gynt yn ystod y flwyddyn a'u bod yn ceisio rhagor o gyllid gan Lywodraeth y DU.
16. Cododd Owain Wyn bryderon am y Parciau Cenedlaethol a'r farchnad dai mewn ardaloedd gwledig. Cytunodd y Gweinidog ar bwysigrwydd monitro'r materion a rhoi camau cadernid ar waith lle y bo'n bosibl.
17. Cynigiodd y Cyng. Wilcox ysgrifennu llythyr ar y cyd i Lywodraeth y DU yn amlinellu'r materion allweddol a wynebir yng Nghymru.
18. Gofynnodd y CCGB i'r Cyng. Wilcox am argaeledd data a gwendid posibl y rhyngwyneb rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chyflenwyr preifat, a allai arwain at broblemau cael at wybodaeth pe baem ni'n gadael yr UE heb gytundeb. Rhannodd y Cyng. Wilcox bryder y Cwnsler Cyffredinol a chyfeiriodd at y data addysg sy'n cael ei gadw yn Nulyn a'r Iseldiroedd, a'r diffyg sicrwydd y byddem yn gallu cael ato ar ôl Brexit. Dywedodd Chris Llewellyn fod CLILC yn cydweithio ar y mater hwn.
19. Diolchodd y Gweinidog i CLILC a'r holl awdurdodau lleol am lefel sylweddol y gwaith y maent wedi'i neilltuo, ac y maent yn parhau i'w neilltuo, i sicrhau bod Cymru yn barod ar gyfer Brexit.
20. Gadawodd y CCGB y cyfarfod, yn sgil diolch gan y Gweinidog.

### **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

21. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir o drafodaethau, a chofnodwyd bod pob cam gweithredu wedi'i gwblhau.

## **Eitem 2: Cyllid Llywodraeth Leol**

22. Roedd y Gweinidog Cyllid wedi mynychu cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid i ddarparu manylion am amserlen arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid.
23. Cadarnhaodd y Gweinidog (Tai a Llywodraeth Leol) fod Gweinidogion yn gweithio'n galed i sicrhau bod pwyllgorau'n cael gwybodaeth ac i weithio ar draws y llywodraeth i gael eglurder mor gyflym â phosibl, yn enwedig yn y meysydd hynny sy'n darparu grantiau i lywodraeth leol. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo gyda Thrysoryddion awdurdodau i reoli negeseuon er mwyn peidio ag achosi pryder diangen, yn enwedig ymhlith y gweithlu.
24. Fe wnaeth y Cyng. Wilcox sylw am y pryderon a godwyd yng nghyfarfod cyngor CLILC yr wythnos gynt ynghylch bylchau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol, a rhannwyd y pryderon hyn gan y Gweinidog a phartneriaid eraill. Eto, cadarnhaodd y Gweinidog fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth y DU i gael eglurhad o'r sefyllfa, er enghraifft o ran toriadau i ardrethi annomestig a'r diffyg yng nghostau pensiwn gwaelodlin. Datganodd y Gweinidog ei hymrwymiad i barhau i weithio'n agos gyda CLILC a swyddogion wrth symud ymlaen, gan grybwyll hefyd effaith elfennau anhysbys, fel etholiad cyffredinol posibl.
25. Trafododd Alun Michael yr effaith ar blismona, gan ddatgan y dryswch a achoswyd gan gyhoeddiadau diweddar ynghylch ymrwymadau i ariannu cyflogau 20,000 o heddweision. Bach iawn o eglurder oedd ar gael ar y manylion.
26. Roedd aelodau llywodraeth leol yn gwerthfawrogi bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda nhw trwy bartneriaeth a thryloywder. Trafodwyd pryderon am nifer o feysydd lle'r oedd problemau cyllido yn arbennig o gyffredin a gwasanaethau'n fregus.
27. Hefyd, trafodwyd effaith yr ansicrwydd a phwysigrwydd prydlondeb grantiau i'r Trydydd Sector.
28. Bydd gweinidogion yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol a CLILC drwy'r Is-grŵp Cyllid.

## **Eitem 3: Gweithio'n rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig – diweddariad**

29. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn dymuno cael trafodaeth arall ar y cynigion drafft ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ynghylch gweithio'n rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Deallodd fod hyn wedi'i drafod yn ddiweddar yng Nghyfarfod Cyngor y CLILC, ac roedd hi'n awyddus i ddeall safbwyntiau a thrafod y materion.
30. O ran y meysydd dan orfod, mae'r rhain oll yn feysydd lle y mae gan Lywodraeth Cymru eisoes bwerau statudol sefydledig a derbyniedig dros awdurdodau lleol. Roedd y ffocws yma ar ad-drefnu'r trefniadau lu, lleihau cymhlethdod ac osgoi haenau ychwanegol o drefniadau yn y dyfodol.

31. Pwysleisiodd y Gweinidog fod cynigion y Bil yn golygu na allai Gweinidogion ychwanegu unrhyw feysydd ychwanegol at Gyd-bwyllgorau Corfforedig, heblaw mewn achosion o fethiant perfformiad, ond y gallai arweinwyr awdurdodau lleol ddewis ychwanegu meysydd pe dymument. Mae hwn yn ymwneud â datganoli grym yn ôl i lywodraeth leol, er mwyn iddynt reoli drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u rheoli'n ddemocrataidd, a'u harwain gan arweinwyr.
32. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod hi'n fodlon cyfarfod â CLILC ac arweinwyr awdurdodau lleol mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau CLILC neu gydag unrhyw grwpiau o arweinwyr i drafod y cynigion ymhellach.
33. Cadarnhaodd y Cyng. Wilcox ei chefnogaeth ei hun tuag at y cynigion, a chefnogaeth aelodau eraill o'r blaidd Llafur. Fodd bynnag, roedd pryderon o hyd gan bleidiau eraill.
34. Esboniodd y Gweinidog ymhellach gysyniad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sef mai arweinwyr fydd yn eu llunio, a bydd ganddynt is-bwyllgorau wedi'u creu ar y cyd â llywodraeth leol. Rhoddodd y Gweinidog yr enghraifft ganlynol: byddai'r Is-bwyllgor Cynllunio yn cyflwyno'i adroddiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, nad yw'n gallu dadlau'n afresymol ag argymhelliad yr Is-bwyllgor. Byddai'r rheoliadau ar yr holl drefniadau hyn yn cael eu dablygu ar y cyd â CLILC a llywodraeth leol.
35. Croesawydd y Cyng. Huw Thomas y sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog, ond amlygodd safbwynt penodol Caerdydd o ran y trefniadau pleidleisio. Hefyd, croesawodd y Cyng. Thomas ddatganoli grym i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ond holodd, os yw Datblygiad Economaidd yn un o'r meysydd dan fandad, pam na fyddai Llywodraeth Cymru yn dirprwyo rhai o swyddogaethau rhanbarthol Llywodraeth Cymru i Is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
36. Cadarnhaodd y Gweinidog mai dyna yn wir yw'r bwriad, gyda gweision sifil yn cael eu symud i Is-bwyllgorau i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr o lywodraeth leol. Disgrifiodd y Gweinidog sut roedd y llywodraeth wedi cael trafferth dod o hyd i ddull sy'n caniatáu i weision sifil symud i strwythur a rennir, ond mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi darparu ateb i hynny. Hefyd, bydd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig y fantais o ddal tir i'w ddefnyddio at ddefnydd cyhoeddus, a darparu'r mecanwaith i rannu sgiliau prin mewn un lle.
37. Dywedodd y gweinidog y byddai'n bwysig cael sylfaen ar gyfer cyllido'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a fyddai'n gweithredu'n lleol, oni bai bod hynny'n cael ei ddiwygio. Byddai'n bwysig i swyddogion weithio gyda grwpiau arbenigol awdurdodau lleol i ddatblygu hyn.
38. Cafwyd trafodaeth ar faint o ranbarthau fyddai ym model y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi gwahodd llywodraeth leol i ddod â'u hawgrymiadau a'u dewis opsiwn yn ôl ati.
39. Dywedodd y Cyng. Ellen ap Gwynn fod pryderon ei phlaid ynghylch Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymwneud yn bennaf â mandadu. Cadarnhaodd y Gweinidog eto y byddai'n fodlon trafod hyn yn fanwl mewn unrhyw grŵp a ddymunai ddod at ei gilydd i gyfarfod â hi.

## **Eitem 4 – Adolygiad o Bartneriaethau Strategol**

40. Disgrifiodd Kevin Griffiths, Llywodraeth Cymru, y broses a ddilynwyd hyd yn hyn gan y tîm adolygu, a oedd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Confederasiwn GIG Cymru a CLILC. Disgrifiodd Kevin sut roedd pentyrru deddfwriaeth a pholisïau ar ddarpariaeth partneriaeth gydag amser wedi bod yn rhan o'r rheswm dros y lliaws presennol o drefniadau partneriaeth.
41. Cafwyd dros 30 o ymatebion i'r alwad am dystiolaeth ym mis Mehefin. Roedd y rhain wedi cadarnhau'r angen am aliniad ond roedd diffyg consensws ynghylch sut beth ddylai'r aliniad hwnnw fod. Ni chefnogwyd un ateb na gorfodi ateb i bob maes, ac nid oedd consensws mai deddfwriaeth oedd yr ateb i'r materion hyn.
42. Cafwyd cydnabyddiaeth glir ar draws yr ymatebion fod perthnasoedd a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol. Croesawodd aelodau'r adroddiad interim yn gyffredinol, er cydnabuwyd bod amlygu'r problemau'n haws o lawer nag amlygu'r atebion.
43. Gofynnodd Kevin i aelodau'r Cyngor Partneriaeth gymeradwyo'r cam nesaf ar gyfer yr adolygiad, sef profi'r ddamcaniaeth ar gyfer atebion lleol.
44. Cyflwynodd y Cyng. Mike Cuddy yr achos dros gynyddu'r ymwneud gan Gyngorau Tref a Chymuned ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er, amlygodd hefyd yr effaith y byddai hynny'n ei chael ar adnoddau lleol. Roedd y Cyng. Cuddy yn cefnogi'r syniad o adnodd ychwanegol ar gyfer ysgrifenyddiaeth ganolog a fyddai, yn ei farn ef, yn gatalydd ar gyfer newid.
45. Pwysleisiodd Martin Mansfield bwysigrwydd ymgysylltu â'r gweithlu a phartneriaeth gymdeithasol ar bob lefel. Cododd Martin y posibilrwydd o lunio cysylltiadau agosach rhwng y strwythurau partneriaeth a threfniadau Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, a chytunodd y Gweinidog.
46. Pwysleisiodd Peter Davies bwysigrwydd ymgysylltu â phobl mewn cymunedau a dywedodd pa mor anhygyrch yw rhai o'r partneriaethau o safbwynt y bobl yr effeithir arnynt, er enghraifft, gan y Cynlluniau Llesiant ar gyfer pob ardal. Hefyd, cododd Peter bryderon am yr amser sy'n cael ei dreulio'n mynychu cyfarfodydd partneriaeth, nad yw bob amser yn gynhyrchiol.
47. Dadleuodd Owain Wyn yr achos o blaid gwneud i dirweddau dynodedig gydweithio'n well a gwnaeth erfyn ar gydweithwyr o lywodraeth leol i gydnabod bod angen gweithio mewn ffordd wahanol mewn rhai achosion.
48. Dywedodd Maria Battle, y GIG, nad oedd hi o reidrwydd yn bwysig bod pobl yn gwybod bod y partneriaethau yn bodoli, ond ei bod hi'n bwysig iawn serch hynny eu bod nhw'n teimlo'r effaith. Croesawodd Maria yr hyblygrwydd, gan gytuno nad yw un maint yn addas i bawb. Byddai Maria yn trafod yr adroddiad interim gyda phartneriaid y GIG yn eu cyfarfod nesaf.

49. Croesawodd Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru, yr adroddiad a dywedodd nad oedd llawer ynddo yn peri syndod. Mae rhai partneriaethau'n gweithio'n dda iawn, nid yw eraill cystal. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dewis cydweithio ac yn profi bod y cysyniad yn bosibl. Dyma gam mawr ymlaen, wedi'i yrru'n lleol, mewn symleiddio ac ad-drefnu partneriaethau. Pwysleisiodd Reg fod gallu partneriaethau i weithio'n effeithiol yn gyfan gwbl yn nwylo'r bobl sydd o gwmpas y bwrdd a bod lefelau sylweddol o hyblygrwydd sy'n caniatáu i bartneriaethau benderfynu trostynt eu hunain p'un ai i wneud pethau yn wahanol – ac os felly, sut. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu adborth pellach ar ba fath o gymorth y gallai fod ar bartneriaethau ei angen, fel rhaglenni datblygu byrddau Academi Cymru.
50. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n rhannu rhai o'r rhwystredigaethau am gyfarfodydd dyblygol, ond pwysleisiodd bod ad-drefnu yn nwylo'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau eraill i wneud iddynt weithio'n effeithiol. Nid yw'r Gweinidog yn awyddus i ddeddfu ar hyn. Mae rhesymau clir dros gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, ac mae tystiolaeth yn dangos bod sefydliadau neu sectorau unigol yn gallu cyflawni cymaint mwy trwy weithio gyda'i gilydd.
51. Cododd Huw Rees, Swyddfa Archwilio Cymru (SCA), yr adolygiad a wnaed gan SAC ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd Huw nad oedd cwmpas yr adolygiad mor eang, ond bod nifer o ganfyddiadau wedi'u hadlewyrchu yn y ddau. Roedd adolygiad SAC wedi darganfod rhywfaint o botensial cadarnhaol mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond roedd rhai materion yn eu dal yn ôl, fel gorgyffwrdd mewn cylchoedd gwaith ac eglurder ynghylch atebolrwydd.
52. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n rhannu rhai o'r rhwystredigaethau am gyfarfodydd dyblygol, ond pwysleisiodd bod y dyfodol yn nwylo'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud iddynt weithio'n effeithiol. Nid yw'r Gweinidog yn awyddus i ddeddfu ar hyn. Mae rheswm clir dros gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, gan fod rhai pethau na all sefydliad neu sector unigol eu cyflawni ar ei ben ei hun.
53. Cadarnhaodd y Cyng. Wilcox ei bod hi'n falch bod CLILC wedi cydweithredu â LIC ar yr adroddiad hwn a dywedodd mai'r allwedd i lwyddiant, yn ei barn hi, oedd canolbwyntio ar natur strategol y partneriaethau i sicrhau bod pwrpas ac effaith yn perthyn i ffocws adnoddau prin.

## I gloi

54. Diolchodd y Gweinidog i bawb am fynychu a dywedodd ei bod yn gobeithio gweld nifer o'r aelodau yn yr Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd ar ddod.
55. Hefyd, llongyfarchodd y Gweinidog y Cyng. Debbie Wilcox ar gael ei hurddo i Dŷ'r Arglwyddi a diolchodd i'r Cyng. Wilcox am ei hymrwymiad ers tro i gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog ei bod o hyd yn gobeithio gweld y Cyng. Willcox mewn cyd-destunau eraill yn y dyfodol.

56. Daethpwyd â'r cyfarfod i ben.